Cyflwyniad

Dyma Mirain Lewis gyda chrynodeb y newyddion o Ffrainc, yr 21fed o Fai 2014.

Penawd 1 –Trafferth yng Nghwlad y Thai.

Mae Bangkok bellach dan grym gwrthryfeliad milwrol. Yn oriau cynnar y bore o'r ugeinfed o Fai, cafodd y Wlad Thai ei roi o dan gyfraith milwrol gan y fyddin. Mae hyn yn dilyn gwrthodiad gan y prif weinidog dros dro I ymddiswyddo. Er hyn, fe sicrhawodd y lluoedd arfog fod y cam yn hanfodol er mwyn "adfer heddwch a threfn", gan bwysleisio nad yw'r sefyllfa'n gyfystyr a 'coup d'etat', a does dim angen i bobl mynd i banig .

Mae protestiadau yn erbyn y llywodraeth wedi bod yn cymryd lle yng nghanol y dref ers rhai misoedd. Ers mis Tachwedd mae 28 yn cael ei lladd a channoedd wedi eu hanafu.

Ar hyn o bryd does neb yn sicr o amcanion y fyddin y tro yma. Ers 1932 maent wedi ceisio achosi gwrthrhyfel yn erbyn y llywodraeth deunaw gwaith.

Mae'r cyfryngau cenedlaethol bellach wedi cael eu sensro. Yn ogystal, me 10 sianel deledu gwahanol a oedd yn ochru gyda'r ddau ochr: gwrthlywodraethwyr 'melyn', a'r 'cochion' o blaid y llywodraeth, wedi cael ei hatal rhag darlledu, gyda milwyr yn amgylchunni'r stiwdio.

Felly beth sydd wedi achosi'r gwrthyfel y tro yma? Mae rhai yn pwyntio bys at yr elitiaeth sydd yng nghanol y llwydraeth, yn enwedig y ffaith bod y arweinwraig a chafodd ei ddisodli ar y 7fed o Fai yn chwaer I'r arweinydd a wnaeth gael ei ddisodli yn y coup d'etat diwethaf yn 2006. Creda rhai taw nhw yw'r drwg yn y caws. Mae'r brawd a'r chwaer bellach wedi fflio I Dubai.

Er hyn, mae rhai yn obeithiol ynglyn â'r datblygiadau . Ar ddydd Sadwrn dywedodd yr Athro Gyfraith Woratchet Parekuut bod y sefyllfa bresennol yn dangos "aeddfedrwydd politigaidd" y wlad, gan bwysleisio "yr unig ateb yw I gael etholiadau newydd. Nid yw'r fyddin yn medru trefnu gwrthrhyfeloedd fel y gallent yn y gorffennol. Erbyn hyn mae nifer o Thai's, hyd yn oed y gwrthynebwyr I'r llywodraeth, yn gwerthfawrogi'r syniadau o ddemocratiaeth a'r hawl gan bawb i bledielsio.

Etholiadau Ewropeaidd 2014

Rhwng y ail ar hugain ar bumed ar hugain o Fai, bydd hyd at dri chant naw deg miliwn o bobl ar draws yr holl Undeb Ewropeaidd yn pleidleisio am eu cynrhycholwyr yn y senedd ewropeaidd yn Strasbourg. Yn gyfangwbwl bydd 751 Aelodau Seneddol Ewrop yn cael eu hethol yn yr 8fed etholiad ers y cyntaf yn 1979.

Yn Ffrainc, mae'r etholiad yn addo bod yn brawf newydd i'r Parti Sosialaidd, sef parti François Hollande. Yn yr etholiadau dinesig dwy fis yn ôl fe wnaeth y prif barti ddioddef

colled fawr, tra wnaeth y partioedd a thuedd gryf ir dde, fel y Front National, ennill tir. Os maer tuedd hyn am barhau fydd en creu sefyllfa dadleuol iawn. Ar y foment mae'r ymgyrchoedd yn eu hanterth. Y themau sy'n cael eu trafod fwyaf yw diwygiad o'r system bresennol, polisiau mewnfudo, cystadleurwydd economaidd, y rhyddid i symud, a llymder.

Parti Socialiste (Chwith)

Yn ofni cael eu cosbi am yr ail waith, mae'r Parti Sosialaidd yn mynnu taw'r 'mwyafrif ceidwadol' yw'r rhai y dylsai gael cael eu cosbi yn y Senedd Ewropeaidd ac nid yr arweinydd François Hollande. Maent yn ymgyrchu am 'aileoli Ewrop' tuag at 'dwf newydd'.

L'UMP (Dde)

Mae'r UMP yn awyddus am guro parti François Hollande am yr eildro, ar ôl buddugoliaeth fawr yn yr etholiadau lleol. Er hynny, tu mewn I'r parti mae llawer o safbwyntiau gwrthbwyntiol yn creu tensiwn. Mae rhai aelodau yn brandio'r aelodaeth i'r Undeb fel '30 mlynedd o lluwchion' sydd 'wedi condemnio Ewrop i droi mewn i beiriant bewrocrataidd'.

Le Front National (Dde cryf).

Parti arall a wnaeth yn dda yn yr etholiadau lleol oedd y Front National. Gyda thuedd gryf I'r dde, mae'r parti yn gobeithio ennill pump ar hugain set ar y noson, yn enwedig yn y Gogledd Orllewin. Gan taw nod personol Marine Le Pen, arweinwraig y blaid, yw stopio defnyddio'r euro, nid oes syndod taw un o'r prif bolisiau yw 'gwrthod y system Ewropeaidd'. Maent hefyd yn mynnu bod stâd bresennol yr Undeb yn symbol o feddylfryd yr UMP's.

Yn amlwg, mae yna safbwyntiau cryf a gwrthbwyntiol yn Ffrainc ar y foment. Yn sicr mae'n mynd i fod yn etholiad pwysig a diddorol.

Bitcoin- Cyfred chwyldroadol y rhyngrwyd yn cryfhau

Bitcoin – efallai nad ydych chi wedi clywed amdano fe, ond mae'r cyfred electronig yma wir yn chwyldroadol. Mae tu allan I reolaeth o unrhyw wladoraeth neu fanc, yn freuddwyd wedi troi'n realiti i'r rhai sy'n gwrthwynebi ein byd cyfalafol bresennol. Mae hyn yn gofi pryder mawr ar y corfforaethau, sydd yn ceisio'u gorau i danseilio'r prosiect yma.

Yn mis chwefror fe wnaethent bron ennill: Heb rhybydd na chyfiawnhad, fe wnaeth y cwmni Apple ddileu yr ap roedd yn galluogi defnyddiwr Bitcoin i rheoli eu cyfrif, efallai oherwydd bod y Bitcoin yn cystadlu yn erbyn systemau talu y cwmni ei hunan.

Yn sgil hyn, penderfynodd y gymuned Bitcoin ymateb gan gymryd y pwer yn ol i mewn i'w dwylo eu hunain. Fe lanswyd CoinPunk, meddalwedd amgryptio i'w ddefnyddio fel llwyfan i Bitcoin sy'n rhad ac am ddim ac anfasnachol. "Gall Apple lladd ap, ond ni allen nhw flocio gwefan" meddai Kyle Drake y rhaglennydd cyfrifiadurol ac ymgyrchwr a greodd y wefan. "Mae'n wasanaeth cyhoeddus. Gan eich bod yn cael mynediad iddo drwy wefan syml, does dim angen meddalwedd arbennig. Gallwch chi reoli'ch cyfrifon, cloddio am bitcoins, eu gwario … i gyd drwy wefan sy'n ddigon ysgafn i'ch ffon symudol ddefnydidio'n hawdd." Mae hefyd yn mynnu bod y wasaneth yn hollol saff, heb un ffordd i unrhyw un arall gael gafael ar wybodaeth personol y defnyddwyr. Ai hyn yw'r dyfodol ynglyn âg arian?

Cannes – Gwyl ffilm mwya glam y byd

Yng nghanol mis Mai bob blwyddyn, mae serennau disglair y byd ffilm yn heidio i Cannes, De Ffrainc am bythefnos o ysblander yn y Cote d'Azur. Agorodd y 67ed Wyl Ffilm ar y 14eg o Fai, ac rydym nawr yng nghanol ei wythnos olaf. Fel pob blwyddyn, mae wedi bod yn llawn gwynebau a ffrogiau prydferth yn ogystal â ddadlau a dyfalu dros ba ffilm fydd yn ennill y brif wobr, y 'Palm d'Or', neu'r Palmwydd Aur.

Y flwyddyn yma, mae nifer fawr o ffilmiau wedi creu'r argraff ar y gynulleidfa, o bedwar ban byd.

Y ffilm cyntaf i greu argraff oedd 'Timbuktu ' gan cyfarwyddwr o Fawrisiws. Gyda sinematograffiaeth foethus, mae'n fawreddog a phwerus sy'n dangos realiti tref sydd o dan fygythiad eithafwyr Allah. Trafoda nifer o themau gwahanol, gan gondemnio'r camdrin wrth ddangos ar yr un pryd yr anhawsterau rhwng grwpiau gwahanol, siaradwyr Bambara Tamasheq a Ffrangeg, i ddeall ei gilydd.

Ennillwr posibl arall yw ffilm Twrcaidd 'Winter Sleep' gan Nuri Bilge Ceylan. Mae'r gaeaf trwm yng nghanol Anatolia yn gefndir i stori cyn-actor sy'n dychwelyd adref i ofalu am westy y teulu ac ysgrifennu traethawd am y theatr Twrcaidd. Mae'n waith cyffrous, ac yn gamp o ffilm sy'n para tair awr.

O Ffrainc mae ffilm Jean-Pierre a Luc Dardenne, 'Deux Jours et une Nuit,' wedi ennill dau wobr yn barod. Mae'n stori am fam ifanc, cymeriad sy'n cael ei chwarae gan Marion Cotillard, sydd ar fin dychwelyd i'w gwaith ar ol cyfnod o iselder, pan mae'n darganfod ei fod wedi colli ei swydd. Mae'n stori sy'n adlewyrchu ochr dywyll y byd gwaith, ac anhawsterau ariannol. Mae rhai yn ymateb mewn poen neu gywilydd, rhai gyda chreulondeb neu'r gwrthwyneb. Mae'n ymhell o'r rôl Hollywood mae'r actores fel arfer yn chwarae.

Bydd yr ennillydd yn cael ei gyhoeddu yn hwyrach yr wythnos yma.

Dyna ni am y tro. Hwyl fawr, a diolch eto am wrando !

Trafferth yng nghwlad y Thai – Le Monde (tuedd ganol-chwith)

http://www.lemonde.fr/asie-pacifique/article/2014/05/20/en-thailande-l-armee-impose-la-loi-martiale-pou-r-restaurer-la-paix_4421987_3216.html

Etholiadau Ewropeaidd 2014 – Les echos (tuedd dde / rhyddfrydiaeth economaidd)

http://www.lesechos.fr/economie-politique/politique/dossier/0203478234516-les-elections-europeennes-2014-668756.php

Bitcoin

http://www.lemonde.fr/pixels/article/2014/05/20/coinpunk-les-libertaires-du-bitcoin-contre-attaquent_4415623_4408996.html?xtmc=bitcoin&xtcr=1

Gwyl Ffilm Cannes

http://www.lesechos.fr/luxe/culture/dossier/festival-cannes-cinema/index.php

http://www.lesechos.fr/luxe/culture/dossier/festival-cannes-cinema/0203499855671-les-films-de-cannes-2014-671198.php

http://www.lesechos.fr/luxe/culture/dossier/festival-cannes-cinema/0203504791944-deja-deux-palmes-en-vue-671751.php